**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

08 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi ymgynghori yr haf diwethaf ar archwilio cynigion sy'n ymwneud â chefnogi amgylchedd bwyd iachach yng Nghymru. Cyhoeddais grynodeb o'r canfyddiadau ym mis Ionawr Amgylchedd Bwyd Iach –Crynodeb o'r Ymatebion, lle cawsom ymgysylltiad helaeth gan y cyhoedd, gan sefydliadau a gan y diwydiant bwyd. Rwyf bellach yn bwriadu cyflwyno datganiad llafar ar 27 Mehefin a fydd yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo prisiau a lleoliadau.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi yn gynnar am fy mwriad i gyflwyno datganiad llafar i'r Senedd, ac i gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn 2024. Rwy'n hapus i ymgysylltu â chi a'r Pwyllgor ynghylch y datganiad a byddwn yn croesawu eich barn ar ba fath o ymgysylltiad fyddai o ddefnydd i chi ac aelodau eraill i gefnogi eich gwaith craffu.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn yn dilyn y datganiad ac at gydweithio ar y maes pwysig hwn.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.